# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 23 Hydref 2014** |
| Amser: | **09.00 – 15.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/bb8693d0-c5f6-467f-af25-9ec5a67d384d?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)**
**Mick Antoniw AC**
**Jeff Cuthbert AC**
**Russell George AC**
**Llyr Gruffydd AC**
**Julie Morgan AC**
**William Powell AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Antoinette Sandbach AC**
**Joyce Watson AC**

Tystion:

**Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru**
**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**
**Rosemary Thomas, Llywodraeth Cymru**
**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru**
**Andrew Charles, Llywodraeth Cymru**
**Amina Rix, Llywodraeth Cymru**
**Louise Gibson, Lawyer, Llywodraeth Cymru**
**Sioned Rees, Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| | Amelia John, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Clerc)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Adam Vaughan (Dirprwy Glerc)<br>Peter Hill (Dirprwy Glerc)<br>SeatonN (Ymchwilydd)<br>Andrew Minnis (Ymchwilydd) |

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Cafodd William Powell ei ethol yn Gadeirydd dros dro.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.**

## 3 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Cyfnod 1: Sesiwn dystiolaeth 14

3.1 Atebodd y Gweinidog a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- Ddarparu eglurhad ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio statws Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer dangosyddion sy'n cael eu datblygu i fesur cynnydd o ran cyflawni'r nodau lles;
- Egluro sut y bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cyd-fynd ac yn rhyngweithio ag egwyddorion, strwythurau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Amgylchedd arfaethedig;
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r Bil ac i egluro'r pryderon y mae wedi'u codi o ran ei bwerau, yn dilyn ei gyfarfod gydag ef.

## 4 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

4.1 Bu aelodau'r pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law hyd yn hyn mewn perthynas â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 5 Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru: Trafod llythyr drafft i'r Gweinidog

5.1 Cytunodd aelodau'r pwyllgor ar y llythyr.

## 6 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-2016: Sesiwn dystiolaeth

6.1 Bu'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

6.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Gwerthiant coedwigaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Yr effaith ar Gymru yn dilyn newidiadau Llywodraeth y DU i Rwymedigaeth y Cwmnïau Ynni; a
- Nifer cynlluniau Ynni'r Fro a'u lleoliad ledled Cymru.

6.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Goblygiadau ariannol Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014; a'r
- Cydgysylltu o ran gwariant y Llywodraeth ar ddigwyddiadau hyrwyddo bwyd.

## 7 Papurau i'w nodi

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Rhagor o wybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru**

7.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Rhagor o wybodaeth gan Gynghrair Cynhalwyr Cymru**

7.2 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Rhagor o wybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

7.3 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i'r llythyr gan y Cadeirydd**

7.4 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

**Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog yn dilyn cyfarfod 17 Medi**

7.5 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Rhagor o wybodaeth gan y Dirprwy Weinidog yn dilyn cyfarfod 17 Medi**

**7.6** Nododd y Pwyllgor y papur.

## 8 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-2016: Trafod y dystiolaeth

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog.